

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 9 Mehefin 2014 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig.

### Presennol:

Cyng. Des Davies (*Cadeirydd*)

Cyng. Llinos Price (*cyrr. 7.50 gadael 8.30*)

Cyng. Morris Davies (*cyrraedd 7.40*)

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Auriol Williams (*Cyn-Gadeirydd*)

Cyng. Huw Jones

Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Des Davies, bawb i gyfarfod mis Mehefin. Croesawodd hefyd Mr Lyn Jenkins, Clynyrynys a chytunodd y Cadeirydd iddo roi cyflwyniad i'r Cyngor am ei bryderon ynglŷn â datgyfeirio llwybr arfordirol 73/63/D o Gwbert i Mwnt. Wedi Mr Jenkins adael yr ystafell, trafodwyd y mater gan yr aelodau a phenderfynwyd yn unfrydol ategu ac ailadrodd eu sylwadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod arbennig cyhoeddus a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2013. Cytunwyd hefyd nad oedd trefnu cyfarfod safle yn fuddiol.
- 1(a) Penodi Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2014-15:** Oherwydd mai pum aelod o'r cyngor yn unig oedd yn bresennol, penderfynwyd gohirio'r mater hwn tan gyfarfod mis Gorffennaf.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Islwyn Iago, Dilwyn Jenkins, Ann Stokoe, Eurig Lloyd, Lyn Jones.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod cofnodion mis Mai yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Morris Davies (Eitem 1 uchod)
- 5. Materion yn codi:**
  - (a) Gwefan i'r Cyngor:** Cynhelir cyfarfod gyda chwmmi Telemat yn ystod y pythefnos nesaf er mwyn symud ymlaen gyda'r wefan.
  - (b) Cerddwyr a Beicwyr yn defnyddio clustffonau:** Derbyniwyd ymateb i lythyr anfonwyd at Elin Jones AC (gweler eitem 9[46])
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Dim
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	Dim
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	Dim
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	Dim
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	£100
Gofal Mewn Galar	£30
NSPCC	£30
Victim Support	£30
Radio Beca	I'w drafod ym mis Hydref 2014
Y Gambo	£50
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500
Prism	Dim
Ceredigion Age Cymru	£50
Gŵyl Fawr Aberteifi	£150
Traws Link Cymru	I'w drafod ym mis Hydref 2014

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio: Di+m

### Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A140173	Greenfields, Penyparc: "Variation of condition 2 of planning permission A080432 (amended design)"	Wedi ei ganiatáu.

## 8. Materion Ariannol.

### Biliau wedi eu talu:

Y Cyng. Des Davies (Lwfans y Cadeirydd am 6 mis)	101361	£150.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mai 2014)	101362	£74.00
Cyflog y Clerc (Mai 2014)	101363	£296.96
Costau'r Clerc (Mai 2014)	101364	£48.96
David Evans a'i Fab (ysgythru bar i gadwyn y Cadeirydd)	101365	£9.60
C.Ff.I. Penyparc (glanhau'r ystafelloedd newid Ystafell Berkley)	101366	£215.00
C.Ff.I. Penyparc (nwyddau glanhau ystafelloedd newid)	101366	£15.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill:** Dim

## 9. Gohebiaeth:

39	Gŵyl Fawr Aberteifi	Derbynneb am rodd ariannol y Cyngor	Nodwyd
40	Cyngor Sir Ceredigion	Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â Chadeiryddiaeth Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2014-15. Mae'r Cyng. John Adams-Lewis wedi ei ailethol yn Gadeirydd.	Nodwyd
41	Sefydliad Prydeinig y Galon.	Cais yn gofyn i'r Cyngor ystyried anfon llythyr at y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones, AC yn datgan pryder ynghylch cynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda i symud arbenigedd y galon o Ysbsyty Bronglais i Glangwili.	Y Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth at Mr Jones.
42	Tîm ROSPA	E-bost yn cadarnhau y bydd Chwaraefan y Ferwig a Chwaraefan Cae Gwyrdd Penyparc yn cael eu harchwilio yn ystod mis Mehefin	Nodwyd
43	Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol	Archwiliad Ad-dalu Cynghorwyr. Holiadur i'w lanw.	Nid yw'n berthnasol am nad yw aelodau'r Cyngor yn bwriadu gwneud cais.
44	Western Power Distribution	Sampl o ddeunydd i'w cadw mewn argyfwng o brinder trydan.	Nodwyd
45	Parc Fferm Arfordirol Ynys Aberteifi	Copiau o ddogfenni a mapiau hanesyddol yn ymwneud â'r llwybr arfordirol. Mae'r perchennog wedi ychwanegu sylwadau arnynt.	Gweler eitem 1.
46	Elin Jones AC	Ymateb i bryder y cyngor ynglŷn ag offer clustffonau/ipod/MP3 gan feicwyr a cherddwyr.	Datganodd Ms Jones ei pesimistaidd i'r Llywodraeth ystyried deddfau i reoli defnydd yr offer.
47	Un Llais Cymru	Newyddlen Gwanwyn 2014	Copi ar gael gan y Clerc
48	Traws Link Cymru	Llythyr yn gofyn am gefnogaeth i'w	Y Clerc i anfon llythyr o

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

		hymgyrch i ailagor y rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.	geflogaeth. Caiff y cais am gymorth ariannol ei ystyried ym mis Hydref.
--	--	--	---

## 10. Materion Eraill:

- (a) **Pant yn yr heol ger Hobart a Cotswolds, Feidr Tywod, Penyparc:** Cysylltodd y Cyng. Des Davies gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater ac mae'r gwaith wedi ei gyflawni.
- (b) **Gordyfiant ar y llwybr rhwng Golygfan Gwbert a Gwesty'r Gwbert:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r gymuned ynglŷn â'r llwybr. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (c) **Gordyfiant ar y llwybr o Aberdar i Felinbedr:** Derbyniwyd cwyn ynglŷn â'r mater ac mae Mr John Morris wedi trasio'r llwybr.
- (d) **Llwybr Cyhoeddus/Llwybr Ceffyl ger Heolgyddil Fach:** Derbyniwyd cwyn bod postyn iet mewn cyflwr gwael. Y Clerc is gysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (e) **Llwyddiant Clwb Ffermwyr Ifainc, Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o longyfarchiadau i'r Clwb wedi iddynt ennill yr ail wobwr yn Rali Sir Ceredigion yn ddiweddar, a hefyd dymuno'n dda i'r aelodau fydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol mis nesaf.
- (f) **Llwyddiant Adran Penyparc yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd:** Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o longyfarchiadau i'r Adran ar ennill y wobwr gyntaf am lefaru yn yr Eisteddfod.
- (g) **Bin Sbwriel tu allan i Ystafell Berkley:** Derbyniwyd cwyn oddi wrth Glwb Ffermwyr Ifainc Penyparc bod rhywrai yn gosod cerrig mawr a bagiau o faw cŵn yn y bin sydd wedi ei leoli yno. Teimlai aelodau'r Clwb bod angen symud y bin o'r safle hwn. Nid oedd gan aelodau'r Cyngor unrhyw wrthwynebiad i benderfyniad y Clwb.
- (h) **Arwyddion i atal cŵn i mewn i gae Ystafell Berkley:** Gan fod y Cyngor Sir ar hyn o bryd yn y broses o gyflwyno deddfau rheoli baw cŵn drwy'r sir, cytunwyd bod y Cyngor yn gohirio ei benderfyniadau hyd y derbynir canllawiau.

## 11. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf y Cyngor: 14 Gorffennaf 2014 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30yh.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2014

1 Medi (YB) 6 Hydref (F) 3 Tachwedd (YB) 1 Rhagfyr (F)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 9 June 2014 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Present

Cllr Des Davies (*Chairperson*)  
Cllr Llinos Price (arr. 7.50 left 8.30)  
Cllr Morris Davies (arr. 7.40)  
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Auriol Williams (*Past Chairman*)  
Cllr Huw Jones  
Cllr Haydn Lewis (*Local Member of CCC*)

- 1. Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Des Davies, welcomed everyone to the June meeting. He also welcomed Mr Lyn Jenkins, Clynyrynys. The Chairman agreed to Mr Jenkins' request to give the Council a presentation regarding his concerns of the proposed diversion to the Gwbert to Mwnt coastal path 73/63/D. Following Mr Jenkins' departure, the item was fully discussed by the Council. It was unanimously resolved that the proposals agreed at the Extraordinary General Meeting of the Council held on 22 October 2013 be reiterated. It was also agreed that a site meeting would not be beneficial.

**1(a) Appoint a Vice Chairperson for the year 2014-15:** As only five Council members were present, it was agreed to discuss the matter in the July meeting.

- 2. Apologies for absence:** Cllrs Islwyn Iago, Dilwyn Jenkins, Ann Stokoe, Eurig Lloyd, Lyn Jones.

- 3. Minutes of the previous meeting.**

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price that the minutes for the June meeting are correct.

- 4. Declaration of personal interests:** Cllr Morris Davies (Item 1 above).

- 5. Matters arising:**

- (a) Council Website:** A meeting between Telemat and members of the Council is to be arranged during the next fortnight.
- (b) Walkers and bikers using earphones:** Response to letter sent to Elin Jones AM (see item 9[46]).

- 6. Requests for financial support.**

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Nil
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	Nil
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	Nil
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	Nil
Ceredigion Young Farmers Club	£100
Cruise	£30
NSPCC	£30
Victim Support	£30
Radio Beca	To be discussed in October 2014
Y Gambo	£50
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500
Prism	Nil
Ceredigion Age Cymru	£50
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£150
Traws Link Cymru	To be discussed in October 2014

*(Names in italics = accounts forwarded with applications)*

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning: Nil

### Other Planning Matters:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A140173	Greenfields, Penyparc: "Variation of condition 2 of planning permission A080432 (amended design)"	Application granted.

## 8. Financial Matters.

### Bills paid

Cllr Des Davies (Chairman's Allowance for 6 months)	101361	£150.00
HMRC: Clerk's Income Tax (May 2014)	101362	£74.00
Clerk's Salary (May 2014)	101363	£296.96
Clerk's Expenses (May 2014)	101364	£48.96
David Evans & Son (engraving of bar for Chaimran's chain)	101365	£9.60
Penyparc YFC (cleaning changing rooms at Ystafell Berkley)	101366	£215.00
Penyparc YFC (cleaning materials for changing rooms)	101366	£15.00

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

## 9. Correspondence:

39	Gŵyl Fawr Aberteifi	Receipt for financial donation.	Noted
40	Ceredigion County Council	Information regarding the Chairmanship of Ceredigion County Council for the year 2014-15 has been. Cllr John Adams-Lewis has been re-elected Chnairman.	Noted
41	British Heart Foundation.	Request that the Council considers forwarding a letter to the Rt. Hon. Carwyn Jones AM, expressing concerns as to the proposals by the Hywel Dda Health Board to remove the cardiac consultant's presence from Bronglais to Glangwili.	Clerk to send letter of support to Mr Jones.
42	ROSPA	E-mail confirming that the playareas at Ferwig and Penyparc will be inspected during June.	Noted
43	Independent Remuneration Panel for Wales	Survey of Remuneration 2013-14 Questionnaire to complete.	Not applicable as members of the Council generally do not claim payment.
44	Western Power Distribution	Sample of free Parish Council Pack to help people to cope during power cuts.	Noted
45	Cardigan Island Farm Park.	Copies of correspondence and historical maps relating to the coastal path from Gwbert to Mwnt.	See Item 1.
46	Elin Jones AM	Response to the Council's concerns regarding the use of earphones/ipods/MP3 by walkers and bikers.	Ms Jones voiced her doubts that legislation controlling the use of earphones, etc. could be implemented.
47	One Voice Wales	Spring 2014 Newsletter.	Copy available with the Clerk
48	Traws Link Cymru/West Wales Rail Campaign	Letter requesting the council's support for the re-opening of the railway line between Aberystwyth and Carmarthen.	Clerk to send letter of support. A request for financial support will be discussed in October.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Other Matters:

- (a) **Irregular road surface alongside Hobart and Cotswolds, Feidr Tywod, Penyparc:** Cllr Des Davies contacted Ceredigion County Council regarding this matter and the work has now been completed.
- (b) **Overgrowth on the path between Gwbert Viewpoint and the Gwbert Hotel:** A complaint has been received that this path is in need of trashing. The Clerk to notify the County Council.
- (c) **Overgrowth on the path between Aberdare Farm and Felinbedr:** A complaint was received regarding this overgrowth. Mr John Morris has by now cleared the pathway.
- (d) **Public Footpath/Bridleway near Heolgwyddil Fach:** It has been reported that the condition of the gatepost is in a very poor state of repair. The Clerk to contact the County Council.
- (e) **Penparc Young Farmers' Club:** The Clerk was instructed to forward a letter of congratulations to the Club on winning second prize at the Ceredigion County Rally recently, and also to pass on the Council's good wishes to those competing at the Royal Welsh Show in July.
- (f) **Adran Penyparc at the Urdd National Eisteddfod:** The Clerk was asked to convey the Council's congratulations to members of Adran Penyparc on winning the first prize for recitation.
- (g) **Litter bin at the Ystafell Berkley location:** A complaint has been received that rubble and dog mess have been left in the bin. Members of the Club asked for permission to remove the bin completely from the site. Council members had no objection.
- (h) **Signs prohibiting dogs from entering the Penyparc recreation and football field:** As the County Council is in the process of preparing legislation controlling dogs throughout the county, it was agreed to postpone action until directives are received from the authority.

## 11. Date of the next Ordinary Meeting of the Council: 14 July 2014 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

### Council Meetings in 2014

1 September (YB) 6 October (F) 3 November (YB) 1 December (F)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting